WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Gwynedd**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1734A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Alan Hughes a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau orwariannau blynyddol sylweddol ac nid yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau orwariannau blynyddol sylweddol ac nid yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy 7

Mae strategaeth ariannol drosfwaol y Cyngor wedi cefnogi ei gydnerthedd ariannol yn dda, ond mae'n wynebu heriau yn y blynyddoedd sydd i ddod 7

Mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb gyffredinol, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mawr mewn rhai eraill; yn y flwyddyn gyfredol gallai hyn arwain at orwariant ar y cyfan 9

Bu gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, ond mae wedi bod yn llai llwyddiannus yn y flwyddyn gyfredol gyda rhai arbedion a oedd wedi'u cynllunio heb gael eu cyflawni 10

Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac nid yw wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw dros y blynyddoedd diwethaf 12

Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o incwm y Cyngor wedi cynyddu dros y degawd diwethaf 13

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau masnachol ac mae lefelau benthyca ar y cyfan yn dal i fod yn isel 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer yr aelodau o staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £248 miliwn**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 3,900 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £453 miliwn**

Ffynhonnell: Gwefan Cyngor Gwynedd

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian y gwnaeth y Cyngor gyllidebu i'w gael o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19




Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon archwiliedig Cyngor Gwynedd 2018-19

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Tachwedd 2019.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau orwariannau blynyddol sylweddol ac nid yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae strategaeth ariannol drosfwaol y Cyngor wedi cefnogi ei gydnerthedd ariannol yn dda, ond mae'n wynebu heriau yn y blynyddoedd sydd i ddod;
- mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb gyffredinol, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai

gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mawr mewn rhai eraill; yn y flwyddyn gyfredol gallai hyn arwain at orwariant ar y cyfan;

- bu gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, ond mae wedi bod yn llai llwyddiannus yn y flwyddyn gyfredol gyda rhai arbedion a oedd wedi'u cynllunio heb gael eu cyflawni;
- mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac nid yw wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw dros y blynyddoedd diwethaf;
- mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o incwm y Cyngor wedi cynyddu dros y degawd diwethaf; ac
- nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau masnachol ac mae lefelau benthyca ar y cyfan yn dal i fod yn isel.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau orwariannau blynyddol sylweddol ac nid yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy

### Mae strategaeth ariannol drosfwaol y Cyngor wedi cefnogi ei gydnerthedd ariannol yn dda, ond mae'n wynebu heriau yn y blynyddoedd sydd i ddod

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.


## Yr hyn a ganfuom

7 Canfuom fod strategaeth ariannol drosfwaol y Cyngor wedi cefnogi ei gydnerthedd ariannol yn dda, ond ei fod yn wynebu heriau yn y blynyddoedd sydd i ddod. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- fe ymgynghorodd y Cyngor yn eang â dinasyddion i helpu i lunio'i ddull o newid gwasanaethau. Dilynodd y Cyngor ganlyniad yr ymgynghoriad wrth benderfynu pa wasanaethau i'w blaenoriaethu. Cafodd opsiynau ar gyfer gostyngiadau i'r gyllideb eu cynnig ar y sail hon. Mae'r Cyngor, trwy ei fenter Ffordd Gwynedd, hefyd wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd trwy ddull a symleiddiwyd yn fwy, gan wneud y dinesydd yn ganolog i bopeth a wna.
- mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod o 2019-20 i 2021-22 yn tybio bwlch o ran cyllid a fydd o fewn yr amrediad o £6.5 miliwn i £15.4 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd.
- mae gan y Cyngor hanes da o amcangyfrif ei incwm tebygol yn gywir, gan ystyried yr holl ffactorau rhesymol. Ond nid yw i'w weld fel pe bai ganddo wybodaeth (anariannol) amserol ar gyfer rhai o'i wasanaethau (er enghraifft gofal cymdeithasol i oedolion) a fyddai'n ei alluogi i ystyried y rheswm sylfaenol dros amrywiadau. Byddai gwella cywirdeb cyllidebau'n helpu i wella cywirdeb y bwlch o ran cyllid a wynebir;
- mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau sydd wedi gostwng lefelau'r cyllid ar gyfer gwasanaethau dewisol ac annewisol dros y blynyddoedd diwethaf.
- mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau ar gyfer creu incwm gan gynnwys ffioedd a thaliadau;
- mae'r Cyngor wedi cydnabod nad yw cynyddu lefelau ffioedd wastad yn arwain at gynnydd cyfatebol yn lefel yr incwm, gan bod newidiadau'n effeithio ar ymddygiadau unigolion, ac felly nid yw cynnydd canrannol mewn unrhyw faes penodol o anghenraid yn trosi'n godiad tebyg yn lefel yr incwm a gesglir.

### Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer eleni, a'r tair blynedd ddilynol.




Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan Gyngor Gwynedd yn ei hunanasesiad

## Mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb gyffredinol, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mawr mewn rhai eraill; yn y flwyddyn gyfredol gallai hyn arwain at orwariant ar y cyfan

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fod y Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb gyffredinol, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mawr mewn rhai eraill; yn y flwyddyn

gyfredol gallai hyn arwain at orwariant ar y cyfan. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi profi gorwariannau cylchol sylweddol mewn rhai gwasanaethau sydd wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn meysydd megis cyllidebau Corfforaethol a Chanolog. Ar gyfer 2019-20 mae'r Cyngor wedi rhagfynegi gorwariannau o £658,000 yn yr Oedolion, Iechyd a Llesiant a £3.2 miliwn yn yr Adran Plant a Theuluoedd. Mae'r Cyngor yn rhagweld y gallai'r gorwariannau hyn gyfrannu at orwariant ar y cyfan o £4.58 miliwn (yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis Tachwedd 2019).
- mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad manwl ar lefel sylfaenol er mwyn deall y rheswm dros orwariannau ac mae'n gweithredu i geisio mynd i'r afael â'r gorwariannau rhagamcanol cyn diwedd y flwyddyn.

Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ym mis Tachwedd 2019.

| | **Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net** | **Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net** | **Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan** | **Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net** |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £234.35m | £234.03m | Gwarged o £0.32m | Gwarged o 0.14% |
| 2018-19 | £243.40m | £243.39m | Gwarged o £0.01m | gwarged bach iawn |
| 2019-20 | £247.70m | £252.28m (amcangyfrif) | Gorwariant o £4.58m (amcangyfrif) | Gorwariant o 1.85% (amc) |

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd

## Bu gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, ond mae wedi bod yn llai llwyddiannus yn y flwyddyn gyfredol gyda rhai arbedion a oedd wedi'u cynllunio heb gael eu cyflawni

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd

ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall yn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

## Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, ond mae wedi bod yn llai llwyddiannus yn y flwyddyn gyfredol gyda rhai arbedion a oedd wedi'u cynllunio heb gael eu cyflawni. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor hanes sefydledig o gyflawni arbedion ac mae'n ymwybodol y gall llithriant mewn cynlluniau effeithio ar wireddu'r arbediad a oedd wedi'i gynllunio.
- dros y cyfnod rhwng 2015-16 a 2018-19 cyflawnwyd cynlluniau arbedion gwerth £25,487,967 (95.7%) allan o gyfanswm arbedion wedi'u cynllunio o £26,633,718. Fodd bynnag, yn 2018-19 cafodd ychydig dros 80% o'r arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2018-19 eu cyflawni yn y flwyddyn.
- mae'r Cyngor wedi adnabod arbedion posibl o 2020-21 ymlaen, yn amodol ar lefelau cyllid yn y dyfodol fel a ganlyn:
  – 2020-21 - £2.7miliwn
  – 2021-22 - £1.9miliwn
  – 2022-23 - £0.8miliwn
  – 2023-24 - £0.02miiwn
- gallai'r cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2020-21 ostwng lefel yr arbedion y mae angen i'r Cyngor eu gwneud yn ystod 2020-21.

### Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| £2.45m | £1.98m | £0.47m | 80.7% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd

## Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac nid yw wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw dros y blynyddoedd diwethaf

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn ei cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fod gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac nid yw wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw dros y blynyddoedd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw;
- defnyddiodd y Cyngor gronfeydd wrth gefn yn 2014-15 i ategu ei gyllideb refeniw ac roedd yn bwriadu gwneud hynny cyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â setliad dros dro llywodraeth leol ar gyfer 2020-21; a
- bu gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy dros y cyfnod rhwng 2008-09 a 2018-19, a'r rheiny'n amrywio o isafswm o £49.3 miliwn i

uchafswm o £67.3 miliwn. Roedd balans y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd mis Mawrth 2019 yn £60.9 miliwn gan gynnwys balans ar gyfer y Gronfa Gyffredinol o £6 miliwn.

### Arddangosyn 6: Swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.

| £243.4m | £60.9m | 25.0% |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net |

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd

## Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o incwm y Cyngor wedi cynyddu dros y degawd diwethaf

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o incwm y Cyngor wedi cynyddu dros y degawd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae incwm o'r dreth gyngor yng Ngwynedd wedi cynyddu o 22% o'i incwm yn 2010-11 i 30% yn 2019-20 (Ardrethi Annomestig, Grant Cynnal Refeniw a'r Dreth Gyngor). Mae newid sy'n debyg fwy neu lai yn y cyllid o'r Grant

Cynnal Refeniw i’r dreth gyngor yn amlwg mewn cynghorau eraill yng Nghymru; ac

- mae cyfraddau casglu’r dreth gyngor wedi gostwng ychydig yn 2018-19 i 96.6% o uchafbwynt o 97.35% yn 2016-17. Mae'r Cygnor yn mynd ymlaen i gasglu'r symiau sy'n ddyledus yn y blynyddoedd dilynol yn unol â’i bolisi casglu dyledion, y mae'r Cyngor yn nodi sy'n sicrhau ei fod yn cymryd agwedd gydymdeiladol tuag at adennill dyledion.

### Arddangosyn 8: cyfraddau casglu’r dreth gyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o’r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o’r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£74.138m** (96.6%) o’i gymharu â debyd casgladwy o **£76.712m**

Ffynhonnell: Stats Cymru (www.statscymru.gov.uk)

## Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau sy’n gysylltiedig â’i weithgareddau masnachol ac mae lefelau benthyca ar y cyfan yn dal i fod yn isel

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy’n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a’u cyllidebau refeniw rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau’r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai’n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom nad oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau sy’n gysylltiedig â’i weithgareddau masnachol ac mae lefelau benthyca ar y cyfan yn dal i fod yn isel. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Cyngor fenthyciadau sy’n gysylltiedig â’i weithgareddau masnachol;
- roedd cost yr holl fenthyca gan y Cyngor yn 2018-19 yn £13.4 miliwn, sy’n 5.5% o’r gyllideb refeniw net a’i ragolwg yw y bydd y ganran hon yn parhau’n sefydlog.


### Arddangosyn 9: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae’r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae’r Cyngor wedi’i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau gan y Cyngor fel cyfran o’i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



**5.5%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o’r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru